Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Oedolion** |
| **Lleoliad:** | **Gweithio ystwyth** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion)** |
| **Rhif y Swydd:** | **BG13913** |
| **Cyflog:** | **JNC1 (£55,997 i £61,393 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Cyfnod penodol tan fis Mawrth 2027 (ystyrir cyfle secondiad)** |

## Crynodeb o'r Swydd

Mae'r cyfle cyffrous hwn wedi codi yn dilyn yr ad-drefnu diweddar ar gyfrifoldebau rheolwyr gwasanaeth presennol ym Mlaenau Gwent. Ariennir y swydd gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol tan fis Mawrth 2027 ac mae'n swydd gwasanaeth oedolion allweddol sy'n cefnogi gwaith partneriaeth ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd ar lefel ardal Blaenau Gwent. Bydd y rheolwr gwasanaeth yn rhan o dîm rheoli'r Gwasanaethau Oedolion ac yn gyfrifol yn strategol am y timau gofal cymunedol lleol (dwyrain a gorllewin) ynghyd â'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth – drws ffrynt ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym am recriwtio arweinydd sydd â phrofiad a gwybodaeth ym maes rheoli gwasanaethau sy'n cefnogi oedolion agored i niwed ac wrth weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Byddwch yn aelod annatod o dîm arwain ein Gwasanaethau Oedolion a bydd gennych gyfrifoldebau ychwanegol am oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r ffordd orau i ni glywed llais pobl â phrofiad bywyd wrth inni ddatblygu a gwella cymorth gofal cymdeithasol yn ein hardal ni ym Mlaenau Gwent.

## Hysbyseb Lawn

Mae'r cyfle cyffrous hwn wedi codi yn dilyn yr ad-drefnu diweddar ar gyfrifoldebau rheolwyr gwasanaeth presennol ym Mlaenau Gwent. Ariennir y swydd gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol tan fis Mawrth 2027 ac mae'n swydd gwasanaeth oedolion allweddol sy'n cefnogi gwaith partneriaeth ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd ar lefel ardal Blaenau Gwent.

Rydym felly yn chwilio am arweinydd strategol a all ddangos sgiliau arwain, gwybodaeth a phrofiad amrywiol ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol perthnasol. Bydd angen i ddeiliad y swydd ddangos tystiolaeth o brofiad sylweddol o weithio mewn partneriaeth ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â gwybodaeth gadarn am y

ddeddfwriaeth berthnasol ar draws ei feysydd allweddol a ffocws ar ymarfer ataliol sy'n seiliedig ar ganlyniadau a'r 'hyn sy'n bwysig'.

Fel rheolwr gwasanaeth, bydd gennych chi drosolwg strategol o dimau gofal a chymorth gwaith cymdeithasol penodol ochr yn ochr â phrosiectau strategol ehangach yn ôl yr angen.

Byddwch yn arwain yn y meysydd canlynol:

- Arweinydd strategol ar gyfer timau ardal gofal cymunedol (dwyrain a gorllewin)
- Arweinydd strategol ar gyfer Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Oedolion
- Arweinydd strategol ar gyfer y bartneriaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd (BIPAP), gan gynnwys Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth / Cymunedau Tosturiol / cynlluniau gwaith y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a mentrau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach
- Arweinydd strategol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion o ran datblygu a hyrwyddo profiad bywyd / llais cymunedol oedolion agored i niwed yn ein hagenda gwella gwasanaethau

Bydd gennych rôl gyswllt bwysig ar draws y cyngor ehangach a gyda'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol eraill yng Ngwent a bydd gofyn i chi weithio'n agos gyda'n haelodau etholedig a chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAP) o fewn tîm ardal Blaenau Gwent.

Byddwch yn rhan annatod o'n teulu gofal cymdeithasol Blaenau Gwent yma ym Mlaenau Gwent a byddwch mewn sefyllfa freintiedig i allu cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl fwyaf agored i niwed sy'n byw yn ein cymunedau.

**Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad o gofnodion troseddol.**

/ Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

**Dyddiad Cau:** **6 Mehefin 2024 – 12am, hanner nos**

**Dyddiad y Cyfweliad:** **17 Mehefin 2024 (i'w gadarnhau)**